

Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023*

Pwrpas y Cofnod hwn o Gamau Gweithredu yw monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfodydd e.e. pan fu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i adroddiad gael ei gyflwyno iddynt, neu y gofynnwyd am wybodaeth ar gyfer Cyfarfod yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth ar y Cofnod o Gamau Gweithredu dylid cysylltu â'r Swyddog Llywodraethu.

Diweddarwyd: 14 Chwefror 2023

* Blwyddyn Fwrdeistrefol

Bydd camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn cael eu tynnu oddi ar y Cofnod dilynol o Gamau Gweithredu.

Acronymau:

AW – Archwilio Cymru

PW: Prif Weithredwr

SAC – Swyddog Arweiniol Corfforaethol

SDD – Swyddog Diogelu Data

BW – Blaenraglen Waith

SLI – Swyddog Llywodraethu

SM – Swyddog Monitro

RhC – Rheolwr Corfforaethol

RhCAM – Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol

PRhD – Pwyllgor Rheoli Datblygu

PLIA – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

C a LI – Cyfreithiol a Llywodraethu

Amh – Amherthnasol

IG – I'w gadarnhau

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Llywodrae- thu	Eitem	Nodwyd/ Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) sy'n gyfrifol am y cam gweithredu	Diweddariad ar y datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Statws	Nodiadau
1	27/09/2022	15 Adroddiad ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2021-2022)	Cafwyd cais ynghylch a fyddai'n bosib cynnwys yn yr adroddiad nifer y cwynion na chafodd eu datrys yng ngham 1 ac a aeth ymlaen i gam 2, ac a oedd y cwynion hyn yn cyfeirio at gyfathrebu neu ddiffyg cyfathrebu.	i) Cynnwys yn yr adroddiadau nifer y cwynion na chafodd eu datrys yng ngham 1 ac a aeth ymlaen i gam 2	Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth / Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad	(i) Mae'r adroddiad canol blwyddyn a gyflwynwyd ar 17/01/23 yn adrodd ar nifer y cwynion na chafodd eu datrys yng ngham 1 ac a aeth ymlaen i gam 2.		Cwblhawyd	
				(ii) Adroddiad ynghylch a oedd y cwynion hyn yn cyfeirio at gyfathrebu neu ddiffyg cyfathrebu.		(ii) Fe'i ystyrir yn yr adroddiad nesaf.	27/09/2023	Ar waith	Mae'r tîm yn edrych ar hyn dros y flwyddyn

2	27/09/2022	16 Cofrestr Risgiau Corfforaethol-Chwarter 1	CYTUNWYD: (ii) y byddai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi a Pherfformiad yn cyfleu barn yr Aelodau i'r Grŵp Arweiniol, sef y dylid ystyried cynnwys Recriwtio a Chadw ar y gofrestr risgiau gan nad oedd nifer o wasanaethau yn medru recriwtio; dywedodd yr Arweinydd y byddai'n cyfleu'r farn hon hefyd i'r Grŵp Arweiniol;	Bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi a Pherfformiad yn cyfleu barn yr Aelodau i'r Grŵp Arweiniol, sef y dylid ystyried cynnwys Recriwtio a Chadw ar y gofrestr risgiau gan nad oedd nifer o wasanaethau yn medru recriwtio.	Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi a Pherfformiad / Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Pobl a Threfniadaeth	Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Pobl a Threfniadaeth adroddiad i'r Grŵp Arweiniol a gwnaed penderfyniad i ychwanegu Recriwtio a Chadw i'r gofrestr risgiau corfforaethol.	09/03/2023	Cwblhawyd	Y Grŵp Arweiniol wedi cymeradwyo'r syniad o'i ychwanegu i'r gofrestr risgiau.
			(iii) y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud.	y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud.		Mae'r mater hwn wedi ei roi ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach.		Ar waith	
			(iv) y byddid yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch sut yr oedd y Cyngor wedi monitro'r niferoedd mewn perthynas â Gwywiad Coed Ynn; ac adrodd i'r Aelodau yn unol â hynny yn dilyn y cyfarfod.	Gofyn am eglurhad pellach ynghylch sut yr oedd y Cyngor wedi monitro'r niferoedd mewn perthynas â Gwywiad Coed Ynn; ac adrodd i'r Aelodau yn unol â hynny yn dilyn y cyfarfod.				Cwblhawyd	Bydd yr adroddiad ynghylch Gwywiad Coed Ynn o gyfarfod Pwyllgor Cymunedau Ffyniannus ar 19/10/2022 yn cael ei ddisbarthu i'r Aelodau

3	17/01/2023	7 Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau	Archwilio Cymru - Amser am newid – Tlodi yng Nghymru	MRF i ddilyn			Ar waith	
			Archwilio Cymru – Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	MRF i ddilyn	Cathryn Morgan		Ar waith	
			Archwilio Cymru - y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020/2021	Ymateb drwy ffurflen MRF	Julie Brown		Cwblhawyd	Cyflwynir yr ymateb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 09/03/2023
			Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol		Russell Hughes-Pickering		Ar waith	
			Archwilio Cymru – Diweddariad Cynnydd Asesu Sicrwydd a Risg - Ceredigion – Lleihau Carbon	Ymateb drwy ffurflen MRF	Russell Hughes-Pickering / Bethan Lloyd Davies		Cwblhawyd	Cyflwynir yr ymateb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 09/03/2023
		(iv) diweddaru'r broses o ymdrin ag adroddiadau Archwilio Cymru a darparu ymatebion.	Rhagor o eglurder ar y broses o ymateb drwy ffurflen MRF a diweddaru'r siart llif.	Swyddog Llywodraethu	09/03/2022	Cwblhawyd		
4	17/01/2023	11 Adroddiad canol blwyddyn ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth		Cytunwyd y byddai polisiau a gweithdrefnau cwynion y Gwasanaethau Corfforaethol a Chymdeithasol yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.			Cwblhawyd	Dogfennau wedi eu hanfon drwy e-bost ar 18/01/2023 at aelodau / aelodau lleyg